

Pennaeth Addysg/Head of Education
Ian Roberts

Stryt y Lampint, Wrecsam LL11 1AR
Lampit Street, Wrexham LL11 1AR
Ffôn/Tel: 01978 292000
www.wrecsam.gov.uk www.wrexham.gov.uk



Rhaglen Drochi Hwyrddyfodiaid i'r Gymr

Eich Cyf/Your Ref
Ein Cyf/Our Ref
Dyddiad/Date
Gofynner am/Ask for
Rhif Union/Direct Dial
E-bost/E-mail

IR/PP
11/09/2017
Siwan Meirion
01978 295443
Siwan.Meirion@wrexham.gov.uk

Annwyl Riant/Ofalwr,

Bydd eich plentyn yn dechrau mewn addysg uwchradd mewn llai na 12 mis. Rydych chi ar fin gwneud penderfyniad ynghylch pa ysgol uwchradd y bydd ef/hi yn ei mynychu ym mis Medi'r flwyddyn nesaf. Cyn i chi nodi eich ysgol ddewisol, hoffem roi gwybod i chi am brosiect fydd yn galluogi disgyblion i drosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i gynllun addysg ddwyieithog gynhwysfawr yn Ysgol Morgan Llwyd, fel y nodir ar dudalen 5 o'r Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wrecsam 2018/2019. Gofynnir i chi ystyried p'un a fyddai o fudd i'ch plentyn yn y dyfodol i allu siarad dwy iaith yn rhugl, a all wella'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt mewn nifer o wahanol ffyrdd.

Gyda chefnogaeth lawn Llywodraeth Cymru, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi datblygu prosiect cenedlaethol i ddarparu rhaglen drochi i ddisgyblion sydd am ddilyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyn mynychu Ysgol Morgan Llwyd yn llawn ym mis Medi 2018, cefnogir disgyblion yn eu hysgolion cynradd gan ein Tîm Ymgynghorol y Gymraeg o fis Ionawr 2018. Ar ôl gwyliau'r Sulgwyn, byddant yn dechrau ar gwrs trochi yn Ysgol Morgan Llwyd a fydd yn para 6 wythnos. Mae nifer fechan o ddisgyblion wedi trosglwyddo o ysgolion cynradd Saesneg i Ysgol Morgan Llwyd yn y gorffennol, ac wedi addasu'n dda iawn i addysg gyfrwng Gymraeg.

Mae'n bosibl y gellir cynnig cludiant ar gyfer y cwrs 6 wythnos i'r disgyblion hynny sy'n bodloni meini prawf y Cyngor ar gyfer cludiant ysgol am ddim; fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar leoedd ar gael ar y bws ysgol. Er mwyn canfod a oes lleoedd ar gael hoffwn eich cyngori i gysylltu â'r tîm cludiant ysgol ar 01978 292056 cyn gwneud cais am le ar y cwrs.

Cynhelir noson wybodaeth anffurfiol yn Ysgol Morgan Llwyd nos Dydd Llun, 18 Medi 2017. Ffoniwch ysgrifenyddes y Pennaeth ar 01978 315050 i gadarnhau eich presenoldeb. Os hoffech drafod y cyfle hwn ymhellach, cysylltwch â Siwan Meirion ar 01978 295443 neu Miss Eleri Lewis, Pennaeth Dros Dro, Ysgol Morgan Llwyd ar 01978 315050.

Os bydd eich mab/merch yn ymuno â'r cwrs trochi yn Ysgol Morgan Llwyd ac yn ei chael hi'n anodd dod i arfer ag addysg cyfrwng Cymraeg, mi fydd yn dal yn bosibl iddynt drosglwyddo i addysg uwchradd gyfrwng Saesneg ym mis Medi 2018.

Yn gywir,

Ian Roberts

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.*

*We welcome correspondence in Welsh.
We will respond to any correspondence in Welsh and this will not lead to any delay.*

Pennaeth Addysg

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.*

*We welcome correspondence in Welsh.
We will respond to any correspondence in Welsh and this will not lead to any delay.*